# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU – IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 2 Medi 2024** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd D.Price** |
| **Cynghorwyr**: | E.Thomas, A.Stevens, R.Sinnett a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Wade, S.Davies, D.Thomas, D.John, D.Griffiths, S.Aldred-Jones, K.Tillman, G.Jones, R.Lewis a/ac C.Plowman |
| **Cynghorwyr Allanol:** | L.White |

---

## 1. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2024 fel cofnod cywir.

## 4. POLISI CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (DRAFFT) A'R DIWEDDARAF AM YR YMGYNGHORIAD

Darparwyd diweddariad o ran yr adroddiad ar gynnydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth o Fframwaith Polisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r rhaglen waith ddiwygiedig i ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Cyfeiriwyd at Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, 2021. Esboniwyd bod Swyddogion wedi bod yn gweithio ar ddehongli'r Strategaeth a nodi sut yr oedd yn ymwneud â Rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae Fframwaith Polisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi cyd-destun sut y byddai strategaeth Llwybr Newydd yn cael ei rhoi ar waith ar lefel ranbarthol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Roedd swyddogion wedi mynegi pryderon yn y gorffennol ynghylch yr amserlenni oherwydd nifer o ddylanwadau a oedd yn effeithio ar gynnydd.  Rhestrwyd y rhain yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nodwyd bod Swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth i ddiwygio'r amserlen, yn benodol, newid dyddiad ycyflwyniad terfynol o fis Ebrill 2025 i fis Mehefin 2025.

Derbyniodd yr Aelodau'r diweddariadau canlynol mewn perthynas â chynnydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol:

Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o waith wedi'i gwneud o ran casglu, dehongli a deall data. Er mwyn helpu i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, cynhyrchwyd 'llyfr data'. Eglurwyd bod y 'llyfr data' yn cynnwys dadansoddiad meintiol o ffynonellau data amrywiol gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru a data teithio'r Cyfrifiad. Yn ogystal ag asesiad o hygyrchedd drwy deithio llesol, bysus, rheilffyrdd a cheir i sawl cyrchfan allweddol ar draws y rhanbarth, roedd yr ymarfer mapio hwn yn rhoi trosolwg o rai o'r problemau allweddol yn y rhanbarth. Soniodd swyddogion y gallai'r 'llyfr data' gael ei ddosbarthu i'r Aelodau os oeddent am weld yr wybodaeth yn fanylach.

Cadarnhaodd swyddogion mai'r cam nesaf yn y broses oedd dechrau edrych ar gynlluniau penodol, yn benodol pa gynlluniau y gellid eu rhoi ar waith yn y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf.  Y cyfnod hwn oedd prif ffocws bloc cyllido'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a fydd yn cael ei ddarparu dros y blynyddoedd nesaf. Soniwyd bod yr Awdurdodau Lleol unigol ar draws y rhanbarth yn cynorthwyo yn y cam hwn drwy gyflwyno cynigion ar gyfer cynlluniau amrywiol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod matrics asesu hefyd yn cael ei ddatblygu er mwyn deall sut i asesu a blaenoriaethu'r cynlluniau.

Gan barhau o'r uchod, rhoddodd Swyddogion drosolwg o sut y byddai'r matrics asesu'n gweithio. Yn gyntaf, nodwyd y byddai rhestr o gynlluniau'n cael ei chasglu gan ffynonellau amrywiol megis Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru.  Bydd y rhestr yn destun adolygiad drwy Weithdy Swyddogion, lle bydd Swyddogion yn

dechrau cael gwared ar gynlluniau nad oeddent yn debygol o gael eu cyflwyno o fewn cyfnod pum mlynedd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chynlluniau na ellid eu cyflawni'n realistig. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, eglurwyd y byddai'r cynlluniau sy'n weddill yn destun dadansoddiad manwl pellach. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol a dadansoddiad rhifiadol. Ychwanegwyd y bydd y Fframwaith Polisi'n arwain rhai o'r dewisiadau ynghylch cynlluniau posib.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at ymgynghori ac ymgysylltu. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cynllun ymgysylltu manwl ar waith. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr 'Y Ddadl o Blaid Newid' wedi dod i ben yr wythnos diwethaf, ac roedd Swyddogion ar fin dechrau ymgysylltu â rhai o'r rhanddeiliaid technegol dros yr wythnosau nesaf. Ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben, roedd Swyddogion wedi dechrau gweithio ar archwilio'r ymatebion. Derbyniwyd ychydig dros 800 o ymatebion, a oedd wedi'u gwasgaru'n weddol gyfartal ar draws y rhanbarth, er bod ychydig mwy o ymatebion wedi cyrraedd o ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Soniwyd nad oedd Swyddogion yn poeni am hyn ac roeddent yn credu bod yr ymatebion yn sampl cynrychioliadol o'r rhanbarth. Cyfeiriwyd at y themâu allweddol a oedd yn cael eu codi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.  Yn gyntaf, y safbwynt nad oedd digon o wasanaethau bysus a rheilffyrdd a'r hygyrchedd i'r gwasanaethau hynny, o ran oriau gweithredu a nifer y gwasanaethau. Thema arall a nodwyd oedd pryderon ynghylch y ffaith bod teithio llesol ar frig agenda Llywodraeth Cymru, gan fod rhai pobl yn cwestiynu perthnasedd beicio a cherdded mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ardaloedd gwledig. Y pwynt pryder arall a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd gallu a chynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd. Dywedodd swyddogion nad oedd yr arweiniad yn caniatáu ceisiadau am gynlluniau cynnal a chadw, fodd bynnag, byddai angen sylwebaeth gref ynghylch cynnal a chadw o fewn elfen bolisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Cyfeiriodd swyddogion at y map manwl i randdeiliaid a gynhyrchwyd i roi arweiniad o ran pa randdeiliaid technegol y byddai angen iddynt ymgysylltu â nhw. Roedd y broses hon wedi dechrau'r wythnos ddiwethaf gyda chyrff megis Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cadarnhawyd y byddai sesiynau pellach yn cael eu cynnal yr wythnos hon, gyda'r gweithredwyr bysus a rheilffyrdd yn benodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol rhywbryd yn ystod y broses. Mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd ar ddechrau 2025.

Cynhaliwyd trafodaeth am yr Asesiad Lles. Roedd swyddogion i fod i dderbyn drafft o'r adroddiad cwmpasu. Ar ôl derbyn hyn, byddent yn ymgysylltu â Swyddogion arbenigol o fewn y pedwar Awdurdod Lleol ynghylch rhai o'r pynciau a gynhwysir yn yr adroddiad cwmpasu. Ychwanegwyd y byddai'r Asesiad Lles yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gyda'r ymgyngoreion statudol.

I gloi'r diweddariad, dywedodd Swyddogion y byddent yn trefnu gweithdy cyn bo hir i'w gynnal ym mis Hydref 2024 gydag aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol. Prif ffocws y gweithdy hwn fyddai trafod cynnydd gyda chynlluniau a rhaglenni.

Roedd y Pwyllgor yn hapus gyda nifer yr ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus 'Y Ddadl o Blaid Newid', a gofynnodd a allai Swyddogion rannu rhagor o fanylion ynghylch faint o bobl a ymatebodd o bob ardal Awdurdod Lleol. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn darparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'r ymatebion i'r ymgynghoriad y tu allan i'r cyfarfod. Fodd bynnag, fe'u rhannwyd fel a ganlyn:

- Ardal Abertawe: 290 o ymatebion
- Ardal Castell-nedd Port Talbot: 233 o ymatebion
- Ardal Sir Benfro: 140 o ymatebion
- Ardal Sir Gaerfyrddin: 132 o ymatebion
- Y tu allan i ranbarth de-orllewin Cymru: 29 o ymatebion

Nodwyd bod mwyafrif yr ymatebion gan aelodau unigol o'r cyhoedd. Bydd ymatebion gan sefydliadau'n rhan o'r ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith eu bod hefyd yn mynd i fod yn cyfrifo faint o bobl a ymatebodd fesul poblogaeth er mwyn darparu cyd-destun pellach.

Awgrymodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol hefyd gwybod a oedd y problemau a godwyd gan y rheini mewn ardal drefol yn wahanol i'r problemau a godwyd gan y rheini yn yr ardal wledig.

Cydnabu'r Pwyllgor faint o waith a oedd eisoes wedi'i wneud i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a gofynnodd a gynhaliwyd trafodaethau ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd yn y tymor hwy. Nodwyd, er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gynllun pum mlynedd, nododd y Fframwaith Polisi gyfeiriad clir o ran ymagweddau carbon is a chynaliadwy ar gyfer trafnidiaeth a'r economi. Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i ymwreiddio gwaith arall gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, er enghraifft cynllunio defnydd tir, i sicrhau bod gan y rhanbarth gynllun cadarn ar waith y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd.

Yn ogystal â'r uchod, hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion yn ceisio deall a ellid defnyddio rhywfaint o arian y cynllun cyflenwi ar gyfer cynlluniau a oedd â chyfnod datblygu hirach. Roedd swyddogion yn dal i aros am eglurder gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru ynghylch hyn.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â chynnal a chadw, a nododd Swyddogion fod hon yn her sylweddol. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, ni chaniatawyd ceisiadau am gynlluniau cynnal a chadw. Fodd bynnag, roedd Swyddogion yn ystyried sut y gallent sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at gludo llwythi a logisteg, yn enwedig mewn perthynas â Cherbydau Nwyddau Trwm. Roedd swyddogion yn ceisio penderfynu a ellid annog cerbydau nwyddau trwm i ddefnyddio llwybrau mwy addas, o ran polisi. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod problemau gyda chyfleusterau ar gyfer gyrwyr lorïau. Roedd swyddogion am archwilio cyfleusterau ar ochr y ffordd a chapasiti a galluoedd y rheini. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd fod heriau o ran lorïau yng nghanol trefi a dinasoedd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad o ran y costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd yr amcangyfrif amlinellol wedi cael ei gadarnhau hyd yn hyn. Fodd bynnag, gallai Swyddogion roi trosolwg byr i Aelodau'r Pwyllgor o'r sefyllfa ariannol bresennol. Cadarnhawyd bod Swyddogion yn derbyn rhywfaint o gefnogaeth gan Trafnidiaeth Cymru ac roedd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi dyrannu £51,500 i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol. Roedd hyn ar ben y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, eglurwyd bod rhai cynlluniau cyfochrog a oedd yn gyfranwyr allweddol at ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r fasnachfraint bysus a dyluniad y rhwydwaith bysus yn un o'r cynlluniau hyn. Nodwyd bod yr Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru'n gweithio ar y cynllun hwn ar hyn o bryd. Bydd ymarfer ymgysylltu dilynol a sesiwn friffio gyda'r Aelodau ynghylch hynny. Cyfeiriodd swyddogion hefyd at y prosiect metro a oedd yn parhau. Bydd y prosiect hwn hefyd yn cynnwys nifer o gynlluniau a fydd yn cyfrannu tuag at y cynllun cyflenwi.

Cydnabuwyd y bydd rhai o'r cynlluniau yn cynnwys Bwrdeistrefi Sirol a rhanbarthau eraill ledled Cymru. Felly, gofynnodd yr Aelodau a oedd trefniant lle rhannwyd costau ar draws Awdurdodau Lleol os oeddent yn cydweithio ar y datblygiad. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r manylion hyn yn rhan o'r broses ymgeisio. Roedd nifer o enghreifftiau eisoes yn bodoli o ran mesurau cyd-weithio ar draws awdurdodau.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r adroddiadau cynnydd llafar gan swyddogion ar ffrydiau gwaith datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
2. Cymeradwyo fframwaith polisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
3. Cymeradwyo rhaglen waith datblygiad ddiwygiedig y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH

Eglurwyd y byddai cyfarfod arfaethedig yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mis Hydref yn cael ei ddefnyddio fel gweithdy ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor; a threfnir cyfarfod arbennig ar gyfer 15 Tachwedd 2024.

Nodwyd Blaenraglen Waith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**